

Simon Desbruslais

Bywgraffiad

‘Simon Desbruslais’s performance leaves nothing to be desired: it is musically compelling and technically very impressive.’

Musicweb International (2011)

‘Supreme confidence and flair’

y cyfansoddwr James MacMillan (2012)

‘The audience — and all three composers concerned — marveling at the skill, commitment and sheer tenacity of the steel-lipped Simon Desbruslais’

The Birmingham Post (2012)

‘Great style and assurance’

Journal of the International Trumpet Guild (2012)

‘Dazzling virtuosity and musicianship’

Gramophone (2015)

Unawdydd ar yr utgorn o Brydain ydi Simon Desbruslais a daeth clod y beirniaid i ran ei berfformiadau, gyda’r geiriau ‘steel-lipped’, ‘musically compelling’ ac yn meddu ar ‘supreme confidence and flair’. Mae Simon yn un mor weithgar ym meysydd cerddoriaeth Faróc a chyfoes, wedi recordio’n helaeth i Signum Classics gan gynnwys *Psalm: Contemporary British Trumpet Concertos*, albwm o weithiau i’r utgorn a sgrifennwyd iddo gan John McCabe, Robert Saxton a Deborah Pritchard, ac yn fwyaf diweddar *The Art of Dancing* sy’n cynnwys concerti dwbl newydd i’r utgorn, y piano a cherddorfa dannau gan Toby Young, Geoffrey Gordon a Nimrod Borenstein. Mae darllediadau Radio a Theledu’n rhan annatod o waith Simon a dros y degawd aeth heibio perfformiodd yn fyw ar Deledu BBC 1, BBC Radio 3 a 4 a Radio SWR2 yn yr Almaen i filiynau o wylwyr a gwrandawyr drwy’r byd yn grwn.

Un o elfennau hanfodol gyrfa Simon ydi gweithio gyda chyfansoddwyr i greu a phleidio gweithiau newydd sy’n cynnwys yr utgorn. Amrywiodd hyn o weithiau siambr, megis yr utgorn a’r piano, hyd at concerti cyflawn a chyfuniadau mwy anghyffredin megis yr utgorn gyda chôr, neu gyda phedwarawd tannau. Mae Simon yn arbennig o ymroddedig i gerddoriaeth Prydain – ymhlith y cyfansoddwyr a sgrifennodd gan ddal ei naws a’i dechneg mewn cof bu Edwin Roxburgh, John McCabe, John Traill, Deborah Pritchard, Lola Perrin, Luke Bedford, Toby Young, Tomas Yardley a Tom Armstrong.

Ers tymor 2012/13 a oedd yn dro ar fyd iddo, rhoes Simon berfformiadau concerto yn Tsieina a Brasil, ymddangos yn unawdydd gyda’r Royal Northern Sinfonia, English Symphony Orchestra, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y

BBC, Orchestra of the Swan, Charivari Agréable, Brook Street Band, Ensemble Diderot a London Concertante, ac yn gerddor siambr gwadd gyda'r Ligeti Quartet, Austral Harmony, Little Venice Ensemble ac Ensemble Perpetuo. Rhoes berfformiadau solo yng ngwyliau Ryedale, Wymondham, Cerddoriaeth Newydd Bangor, North York Moors, Deal, a Rheine Vokal, ar draeth Vik yng Ngwlad yr Iâ, ac ymddangos yn unawdydd concerto ar yr utgorn naturiol yn Wigmore Hall. Meithrinodd hefyd gydweithrediadau dros y môr ag Academi'r Celfyddydau Gwlad yr Iâ, Prifysgol Normal Tianjin yn Tsieina ac Academi Gerdd Janáček yn Brno. Mae Simon yn ffodus o gynnal partneriaethau deuawd gweithgar gyda'r pianydd Clare Hammond a'r organydd Stephen Farr, ymhlith cerddorion ardderchog eraill lawer. Cafodd Simon ei ysgol yn King's College London a'r Royal College of Music, lle'r enillodd wobrau ac ysgoloriaethau fyrdd. Wedyn roedd yn un o fyfyrwyr preifat Eric Aubier yn y Conservatoire à Rayonnement Régional de Rueil-Malmaison. Yn sgîl ei awydd ehangu'r berthynas rhwng perfformio a cherddoleg, mae Simon yn dal doethuriaeth gan Eglwys Crist, Rhydychen, ar elfennau cerddoriaeth Paul Hindemith, a gyhoeddwyd ar ffurf llyfr gan Boydell & Brewer ym mis Chwefror 2018. Mae'n Ddarlithydd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Hull, lle mae hefyd yn Gyfarwyddwr Perfformio, a dysgodd gynt ym mhrifysgol Bryste, Nottingham, King's College Llundain a Surrey. Arweiniodd ei ymchwil i utgryn hanesyddol at recordiad ar arteffactau a ddelir gan Gasgliad Bate Rhydychen, oedd yn cynnwys y recordiadau cyntaf o gerddoriaeth ar yr utgorn 'Bach' hir o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ymhlith hynodion hanesyddol eraill. Mae Simon yn cydnabod cefnogaeth hael Arts Council England, Ymddiriedolaeth Ralph Vaughan Williams, Sefydliad Britten Pears a Help Musicians UK.

www.simondesbruslais.com

Cyswllt: simondesbruslais@gmail.com

Correct as of summer 2018. Not to be altered without permission. Please destroy all previous biographical material.